**Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD** **EDC 04-03(p6)**

**Dyddiad:** **6 Mawrth 2003**
**Amser:** **9.00am - 12:30pm**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**
**Teitl:** **YSTADEGAU CYMORTH RHANBARTHOL DEWISOL (RSA) A GRANT BUDDSODDI'R CYNULLIAD (AIG) 2002-03**

## 1. Diben

Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am nifer a dosbarthiad y cynigion a wnaed rhwng mis Ebrill a Rhagfyr 2002 ar gyfer Gymorth Rhanbarthol Dewisol a Grantiau Buddsoddi'r Cynulliad.

## 2. Cyflwyniad

Mae **Cymorth Rhanbarthol Dewisol (RSA)** yn cefnogi prosiectau buddsoddi cyfalaf a fydd yn helpu i greu a diogelu swyddi yn yr Ardaloedd a Gynorthwyir.

Yn ystod y cyfnod o fis Ebrill 2001 tan 31 Rhagfyr 2002, gwnaed 176 o gynigion RSA gwerth £96.6 miliwn i gwmnïau. Buddsoddwyd £351.7 miliwn mewn prosiectau cysylltiedig a rhagwelir y bydd y rhain yn creu 6,485 o swyddi newydd ac yn diogelu 1,806 o swyddi sy'n bodoli eisoes. Mae modd cymharu hyn â'r un cyfnod y llynedd, yn arbennig oherwydd bod rhai o'r cwmnïoedd a fyddai fel arfer yn gwneud cais am RSA ar raddfa fach, yn awr yn mynd ar drywydd yr AIG. Yn yr un cyfnod yn 2001-02, gwnaed 192 o gynigion RSA gwerth £99.8 miliwn, a chostau prosiectau cysylltiedig o dros £446.6 miliwn; rhagwelwyd y byddai'r prosiectau hyn yn creu 6,180 o swyddi newydd ac yn diogelu 3,288 o swyddi sy'n bodoli eisoes.

Cyflwynwyd cynllun **Grant Buddsoddi'r Cynulliad (AIG)** ar 1 Ebrill 2002. Mae'r cynllun yn cynnig cymorth ariannol i fusnesau bach a chanolig eu maint (BBACHau) ledled Cymru - fel arfer y rheini sy'n cyflogi llai na 250 o weithwyr llawn amser. Mae'n darparu grantiau gwerth rhwng £5,001 a £50,000 gyda chyn lleied o fiwrocratiaeth â phosibl. Nid yw'n hanfodol creu swyddi na'u diogelu (heblaw am 'gymorth i greu swyddi' - gweler isod), ond rhaid i'r ymgeiswyr gadarnhau na fydd swyddi'n cael eu colli o ganlyniad i'r prosiect.

Os yw cais yr ymgeisydd yn defnyddio lefel gweddol isel o wariant cyfalaf ond yn creu swyddi newydd, yna gellir rhoi "cymorth i greu swyddi" ac fe'i cyfrifir fel cyfran o'r costau cyflogaeth sydd ynghlwm wrth y swyddi newydd.

Yn y cyfnod o 1 Ebrill tan 31 Rhagfyr 2002, gwnaed 245 cynnig o AIG gyda chyfanswm gwerth £7.8 miliwn i gwmnïau er mwyn cefnogi tua £25 miliwn o fuddsoddiad. Disgwylir i'r prosiectau

hyn greu 405 o swyddi newydd a chynnal 1,307 o swyddi.

**3. Manylion cynigion RSA a wnaed yn 2002-03 (tan 31 Rhagfyr)**

- O gymharu elfennau cyffelyb, mae'n debyg bod nifer y cynigon RSA yn sefydlog o'u cymharu â'r un cyfnod yn 2001-02, ac roedd 2001-02 yn flwyddyn neilltuol.
- Unwaith eto ymddengys bod RSA yn darparu cymorth effeithiol i gwmnïau newydd sbon a chwmnïau gweddol newydd. Gwnaed tua 67% o'r cynigion i gwmnïau a oedd yn llai na 10 mlwydd oed.
- Gwnaed 101 o gynigion (grant £61.8 miliwn a 4,975 o swyddi) i'r sector gweithgynhyrchu.
- Gwnaed 75 o gynigion (grant £34.8 miliwn a 3,316 o swyddi) i'r sector gwasanaeth.
- Rhwng £8,400 a £38,000 yw'r lefelau cyflog ar gyfartaledd, ac mae hyn yn cyfateb i £17,439 y prosiect ar gyfartaledd.
- Cynigwyd 69% o'r grantiau i brosiectau cwmnïau Cymreig. Mae'r rhain yn cyfateb i 46% o gyfanswm gwerth y grant a gynigwyd, a 48% o'r swyddi y rhagwelir y byddant yn cael eu creu a'u diogelu.
- Mae RSA yn parhau i gyfrannu'n effeithiol tuag at gefnogi mewnfuddsoddi - gwnaed 15% o'r cynigion i brosiectau gan gwmnïau o dramor. Mae'r rhain yn cyfateb i 46% o gyfanswm gwerth y grant a gynigwyd a 36% o'r swyddi y rhagwelir y byddant yn cael eu creu a'u diogelu. Mae hyn yn dangos bod y buddsoddiadau mewn prosiectau gan gwmnïau o'r tu allan i'r DU yn fwy o faint.
- Ar gyfartaledd £11,141 yw'r grant a roddir i gwmnïau o Gymru am bob swydd, o'i gymharu â £14,710 i gwmnïau tramor a £6,161 i gwmnïau eraill o fewn y DU.

**3.1. Mathau o brosiectau:**

| Math o brosiect | Nifer | Swm a gynigwyd £m | Cost y prosiect £m | Swyddi newydd | Swyddi a ddiogelwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Busnesau newydd sbon/ gweddol newydd | 55 | 48.0 | 203.8 | 3,430 | 0 |
| Gweithgaredd newydd ar y safle presennol | 23 | 5.9 | 17.6 | 504 | 110 |
| Trosglwyddo i safle newydd | 31 | 8.4 | 28.2 | 927 | 125 |
| Moderneiddio/ ehangu'r safle presennol | 63 | 32.1 | 98.7 | 1,357 | 1,571 |
| Rheolwyr yn prynu'r cwmni | 4 | 1.2 | 3.4 | 267 | 0 |

### 3.2 BBACHau a chwmnïau mawr:

| | Nifer | Swm a gynigwyd £m | Cost y Prosiect £m | Swyddi Newydd | Swyddi a ddiogelwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Cwmnïau Mawr | 36 | 63.7 | 244.7 | 3,237 | 1,437 |
| BBACHau | 140 | 32.9 | 107.0 | 3,248 | 369 |

### 3.3 Cwmnïau Cymreig, cwmnïau eraill y DU a thramor:

| | Nifer | Swm a gynigwyd £m | Cost y Prosiect £m | Swyddi Newydd | Swyddi a ddiogelwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymreig | 122 | 44.3 | 154.6 | 3,144 | 834 |
| DU - eraill | 27 | 8.1 | 23.2 | 1,151 | 154 |
| Tramor | 27 | 44.2 | 173.9 | 2,190 | 818 |

### 3.4 Swyddi newydd a swyddi a ddiogelwyd

| | Nifer | Swm a gynigwyd £m | Cost y Prosiect £m | Swyddi Newydd | Swyddi a ddiogelwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Swyddi hollol newydd | 138 | 68.8 | 259.5 | 5,727 | - |
| Swyddi a ddiogelwyd yn gyfan gwbl | 12 | 7.8 | 22.3 | - | 886 |
| Swyddi newydd yn bennaf | 7 | 2.3 | 8.3 | 288 | 44 |
| Swyddi a ddiogelwyd yn bennaf | 19 | 17.6 | 61.6 | 470 | 876 |

### 3.5 Ardal Awdurdod Unedol:

| Ardaloedd Awdurdodau Uneol: | Nifer | Swm a gynigwyd £m | Prosiect Cost £m | Swyddi Newydd | Swyddi a ddiogelwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 11 | 5.75 | 12.46 | 584 | 29 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 11 | 13.86 | 40.38 | 729 | 118 |
| Caerffili | 25 | 6.37 | 17.57 | 463 | 206 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Caerdydd | 14 | 4.33 | 15.95 | 751 | 82 |
| Sir Gaerfyrddin | 3 | 10.53 | 31.86 | 228 | 434 |
| Ceredigion | 7 | 0.83 | 3.03 | 75 | 24 |
| Conwy | 3 | 3.49 | 8.95 | 149 | 34 |
| Sir Ddinbych | 4 | 0.52 | 1.11 | 67 | 39 |
| Sir y Fflint | 9 | 1.26 | 3.75 | 242 | 0 |
| Gwynedd | 11 | 1.96 | 7.94 | 128 | 56 |
| Merthyr Tudful | 3 | 0.77 | 1.81 | 78 | 0 |
| Sir Fynwy | - | - | - | - | - |
| Castell-nedd Port Talbot | 13 | 11.36 | 73.89 | 455 | 208 |
| Casnewydd | 8 | 3.13 | 4.83 | 362 | 5 |
| Sir Benfro | 3 | 10.18 | 44.68 | 620 | 0 |
| Powys | 1 | 0.23 | 0.82 | 44 | 0 |
| Rhondda Cynon Taf | 20 | 7.36 | 22.04 | 552 | 177 |
| Abertawe | 15 | 9.93 | 40.77 | 627 | 389 |
| Tor-faen | 8 | 4.00 | 17.68 | 248 | 5 |
| Bro Morgannwg | 4 | 0.43 | 1.12 | 47 | 0 |
| Ynys Môn | 3 | 0.31 | 1.08 | 36 | 0 |
| **Cyfanswm** | 176 | 96.60 | 351.72 | 6,485 | 1,806 |

Nodiadau:

(i) Nid yw Wrecsam wedi'i gynnwys yn y tabl oherwydd nid yw'n ardal sy'n gymwys at ddibenion RSA.
(ii) Ar y cyfan nid yw Sir Fynwy yn derbyn cymorth; ni fu gweithgaredd RSA yn y rhan sy'n cael ei chynnwys yn yr Ardal a Gynorthwyir.

**4. Manylion y cynigion AIG a wnaed yn 2002 (tan 31 Rhagfyr)**

Lluniwyd y cynllun i weithredu gyda chyn lleied o fiwrocratiaeth â phosibl ac felly nid oes rhaid i'r ymgeisydd roi llawer o wybodaeth. Mae hyn yn ei dro yn cyfyngu ar nifer y dulliau dadansoddi posibl. Mae'r tabl isod yn dangos sut y dosberthir y cynigion yn ddaearyddol.

| **Ardaloedd Awdurdodau Uneol:** | **Nifer** | **Gwerth y cynnig** | **Cost y Prosiect** | **Swyddi Newydd** | **Swyddi a gynhelir** |
|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 3 | 119,500 | 196,070 | 18 | 3 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 11 | 429,400 | 1,069,853 | 7 | 0 |
| Caerffili | 23 | 692,070 | 1,743,496 | 20 | 58 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Caerdydd | 19 | 634,435 | 2,925,011 | 85 | 15 |
| Sir Gaerfyrddin | 20 | 605,713 | 1,684,311 | 13 | 32 |
| Ceredigion | 5 | 128,100 | 326,067 | 5 | 13 |
| Conwy | 8 | 294,000 | 660,900 | 3 | 39 |
| Sir Ddinbych | 16 | 553,600 | 1,506,632 | 13 | 270 |
| Sir y Fflint | 19 | 640,775 | 3,659,470 | 37 | 136 |
| Gwynedd | 19 | 506,200 | 1,269,650 | 11 | 118 |
| Merthyr Tudful | 3 | 120,000 | 272,403 | 0 | 33 |
| Sir Fynwy | 3 | 52,000 | 292,000 | 0 | 4 |
| Castell-nedd Port Talbot | 17 | 583,870 | 1,607,569 | 36 | 89 |
| Casnewydd | 7 | 239,350 | 1,262,393 | 38 | 25 |
| Sir Benfro | 5 | 143,500 | 264,862 | 8 | 134 |
| Powys | 11 | 362,565 | 1,952,832 | 19 | 77 |
| Rhondda Cynon Taf | 28 | 841,900 | 1,966,508 | 12 | 82 |
| Abertawe | 4 | 158,442 | 326,200 | 10 | 4 |
| Tor-faen | 8 | 294,500 | 617,065 | 11 | 38 |
| Bro Morgannwg | 9 | 181,635 | 494,101 | 44 | 0 |
| Wrecsam | 4 | 128,975 | 591,162 | 15 | 129 |
| Ynys Môn | 3 | 92,200 | 315,860 | 0 | 8 |
| **Cyfanswm** | 245 | 7,802,730 | 25,004,415 | 405 | 1,307 |

**Camau i'r Pwyllgor eu Cymryd**

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r diweddariad chwarterol hwn ar gyfer cynigion RSA ac AIG yng Nghymru.

**Yr Is-adran Buddsoddiadau a Rheolaeth Gorfforaethol**